



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddHealth@senedd.cymru

30 Awst 2022

Annwyl Russell,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 10 Awst ynghylch datganiad agoriadol Ymchwiliad Cyhoeddus y DU i COVID-19.

Nid wyf yn credu bod y cyhoeddiadau a wnaed gan y Farwnes Hallett wedi newid y sefyllfa ymarferol o ran ein rôl yn Ymchwiliad y DU. Mae'r cylch gorchwyl yn glir iawn y bydd yr Ymchwiliad yn edrych ar y camau a gymerwyd ar draws y DU gyfan, ac mae'r Farwnes Hallett wedi ailadrodd hyn yn ei datganiad agoriadol. Mae cwmpas dros dro modiwl un yn glir y bydd yn ymchwilio i rôl y Llywodraethau datganoledig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei chais am statws Cyfranogwr Craidd ar gyfer modiwl un, a bydd yn gweud ceisiadau tebyg ar gyfer modiwlau yn y dyfodol ar ôl ystyried eu cwmpas, Rheol 5 o Reolau Ymchwiliadau 2006, a'r Protocol ar gyfer Cyfranogwyr Craidd yr Ymchwiliad COVID-19 ei hun.

Bydd yr adroddiadau sy'n deillio o'r Ymchwiliad yn cael eu hystyried yn ofalus, fel sy'n digwydd gyda'r holl adroddiadau yr ydym yn eu cael, a byddwn yn ymateb wedyn mewn modd tryloyw.

Yn gywir,

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.